



Gofal Cymdeithasol **Cymru**  
Social Care **Wales**

## Llawlyfr Cynllunio Ardal Gofal a Chymorth

Mae'r adnodd canlynol wedi'i gynllunio i helpu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gyflawni eu dyletswyddau o dan adran 14a o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r rheoliadau a'r canllawiau statudol canlynol.

### **Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2017**

<http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2017/56/contents/made/welsh>

### **Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) (Diwygio) 2017**

<http://www.assembly.wales/laid%20documents/sub-ld10924/sub-ld10924-w.pdf>

### **Canllawiau Statudol yn ymwneud â Chynlluniau Ardal o dan adran 14a**

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/170404sguidecy.pdf>

Mae'r llawlyfr hwn yn cynnwys tair adran. Rydym yn eich cynghori i ddarllen pob adran, a'r rheoliadau a'r canllawiau statudol, cyn cychwyn eich proses gynllunio.

### **Adran 1: Elfennau'r Cynllun**

### **Adran 2: Templed Cynllun Ardal**


### **Adran 3: Nodiadau Cyfarwyddyd**

**Awduron:** Tony Garthwaite a Rebecca Cicero



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**

## Adran 1: Elfennau'r Cynllun Ardal



### Beth yw diben yr olwyn hon?

Mae'n dangos yr elfennau a fydd yn creu'ch cynllun ardal terfynol. Rydym yn sylweddoli y bydd pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn trefnu ei broses cynllunio yn wahanol, gan ddefnyddio ei adnoddau a'i dempledi cynllunio ei hun, heb ddilyn yr un drefn o reidrwydd. Dylid ystyried pob darn yn gam yn y broses gynllunio.

Er mwyn adlewyrchu'r ffaith nad proses linellol mo hon, rydym wedi cyflwyno elfennau'r cynllun ar ffurf olwyn ryngddibynnol. Yn erbyn pob darn, rydym wedi cyfeirio at y **Nodyn cyfarwyddyd** perthnasol ac adran berthnasol y **templed Cynllun Ardal**. Hefyd, rydym wedi croesgyfeirio hyn ag adrannau perthnasol y **canllawiau statudol**.

## **Pennu blaenoriaethau rhanbarthol ac integredig**

Cam cyntaf naturiol y broses gynllunio fydd nodi a chytuno ar flaenoriaethau integreiddio'r cynllun, ar ôl cwblhau asesiad o'r boblogaeth. Bydd rhan o'r broses hon yn cynnwys cytuno ar yr anghenion dynodedig sy'n cael eu rhoi ar waith yn rhywle arall ac **na fyddant** yn cael eu rhoi ar waith gan eich Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fel blaenoriaeth ranbarthol.

Rydym wedi darparu cyngor ar nodi a disgrifio'r blaenoriaethau hynny yn eich Cynllun Ardal yn [Nodyn cyfarwyddyd 1a](#) a chyngor ar integreiddio yn [Nodyn cyfarwyddyd 1b](#).

### **Ym mha ran o'r templed Cynllun Ardal ddylwn i gofnodi hyn?**

Bydd angen i chi gofnodi'ch blaenoriaethau rhanbarthol yn adrannau 1.5 (trosolwg) a 2.4 (thema graidd unigol). Hefyd, gallwch gysylltu â chynlluniau a strategaethau eraill sy'n berthnasol i'r blaenoriaethau yn adran 2.9.

Dylid cofnodi unrhyw anghenion dynodedig a fydd yn cael eu rhoi ar waith drwy gynlluniau neu strategaethau eraill yn adran 2.3, ar gyfer pob un o'r penodau thema graidd unigol.

### **Adrannau perthnasol o'r Canllawiau Statudol**

Paragraff 11 (blaenoriaethau)

Paragraffau 25, 28, 47-49 (cyfeirio at waith sydd i'w roi ar waith drwy gynlluniau neu strategaethau eraill)

## **Pennu gweithredoedd yn erbyn blaenoriaethau, gan gynnwys camau atal**

Mae'r canllawiau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i chi nodi'ch camau gweithredu mewn ymateb i'r blaenoriaethau. Noder bod yna ofynion penodol yn ymwneud â materion fel atal, yr iaith Gymraeg, a gwybodaeth, cyngor a chymorth. Mae cyngor ar faint o wybodaeth sydd angen i chi ei chynnwys yn eich cynllun ar gael yn [Nodyn cyfarwyddyd 2](#).

### **Ym mha ran o'r templed Cynllun Ardal ddylwn i gofnodi hyn?**

Bydd angen i chi gofnodi'r camau gweithredu ar gyfer pob un o'r themâu craidd yn y tabl yn adran 2.10

### **Adrannau perthnasol o'r Canllawiau Statudol**

Paragraffau 11, 39-42, 49

## **Nodi Adnoddau**

Bydd angen i chi nodi'r adnoddau sydd gennych i roi pob un o'r camau ar waith. Byddwch eisoes wedi nodi nifer o asedau drwy'ch asesiad o'r boblogaeth, a dylid ystyried yr adnoddau hyn ochr yn ochr ag adnoddau eraill, fel cyllidebau neu staffio. Mae cyngor ar hyn ar gael yn [Nodyn cyfarwyddyd 3](#).

### **Ym mha ran o'r templed Cynllun Ardal ddylwn i gofnodi hyn?**

Bydd angen i chi gofnodi hyn yn y tabl o gamau gweithredu ar gyfer pob un o'r themâu craidd yn adran 2.10.

### **Adrannau perthnasol o'r canllawiau statudol**

Paragraffau 15, 42

## **Modelau darpariaeth o ddewis a sut i'w caffael (gan gynnwys modelau darpariaeth amgen)**

Mae'r canllawiau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i chi ddangos model darpariaeth eich camau gweithredu dynodedig. Gall rhai camau gweithredu ymwneud ag adolygu prosesau cyfredol neu sefydlu strategaethau neu fframweithiau i ymateb i'r anghenion gofal a chymorth dynodedig. Fodd bynnag, os ydych chi'n darparu gwasanaeth newydd, bydd angen i chi egluro'r model darpariaeth, gan roi sylw penodol i adran 16 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae rhagor o gyngor ar gael yn [Nodyn cyfarwyddyd 4](#).

### **Ym mha ran o'r templed Cynllun Ardal ddylwn i gofnodi hyn?**

Bydd angen i chi gofnodi hyn yn y tabl o gamau gweithredu ar gyfer pob un o'r themâu craidd yn adran 2.10, a gallwch gynnwys rhagor o wybodaeth mewn Atodiad. Ar gyfer modelau darpariaeth amgen, bydd angen i chi ddangos sut rydych yn diwallu anghenion y Ddeddf yn adran 2.6 o benodau'r themâu craidd.

### **Adrannau perthnasol o'r canllawiau statudol**

Paragraffau 11, 32, 34, 41 (camau gweithredu eraill)

## Cyllid cyfun neu drefniadau eraill

Os oes gennych flaenoriaethau rhanbarthol y cytunwyd arnynt, disgwylir i chi ystyried a ddylid sefydlu cyllideb gyfun. Os ydych chi'n cytuno mai cyllideb gyfun yw'r ffordd fwyaf effeithiol o reoli cyllid, bydd angen i chi nodi hyn yn eich cynllun. Os ydych chi wedi penderfynu defnyddio trefniant cyllido amgen, bydd angen i chi nodi'r trefniadau. Noder y bydd angen cyllid cyfun ar gyfer camau gweithredu yn ymwneud â meysydd blaenoriaeth penodedig. Mae rhagor o gyngor ar drefniadau cyllido ar gael yn [Nodyn cyfarwyddyd 5](#).

### Ym mha ran o'r templed Cynllun Ardal ddylwn i gofnodi hyn?

Bydd angen i chi gofnodi hyn yn y tabl o gamau gweithredu ar gyfer pob un o'r themâu craidd yn adran 2.10 o dan y teitl 'sut fyddwn ni'n gweithredu'. Mae'n bosibl y bydd gennych chi ddogfennau manwl penodol yn ymwneud â threfniadau cyllido cyfun ar gyfer y flaenoriaeth gyffredinol neu gamau gweithredu penodol. Gallwch gynnwys hyn fel Atodiad os ydych chi'n dymuno.

### Adrannau perthnasol o'r canllawiau statudol

Paragraffau 11, 29-31

## Trefniadau partneriaeth a llywodraethu

Mae'n bosibl y bydd dwy haen i'ch trefniadau partneriaeth a llywodraethu – un ar gyfer eich cynllun rhanbarthol a sawl un arall ar gyfer eich camau gweithredu unigol.

Wrth ddatblygu'r cynllun, bydd angen i chi gyflwyno a chytuno ar drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd i roi'r cynllun cyfan ar waith (y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol). Gallwch ddisgrifio'r broses hon yn y cyflwyniad i'r cynllun neu ei chynnwys mewn atodiad manylach.

O safbwynt partneriaethau sy'n cael eu sefydlu i roi'r camau ar waith, bydd angen i chi restru'r partneriaid sy'n gyfrifol am roi'r camau ar waith ym mhob un o benodau'r themâu craidd. Hefyd, dylech ddangos pam y dewiswyd ateb integredig. Mae rhagor o gyngor ar gael yn [Nodyn cyfarwyddyd 6](#).

### Ym mha ran o'r templed Cynllun Ardal ddylwn i gofnodi hyn?

Dylech ddisgrifio trefniadau partneriaeth a llywodraethu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn adran 1.3 ac 1.4.

Hefyd, dylech ddisgrifio pam eich bod wedi mabwysiadu agwedd integredig at nodi'ch blaenoriaethau ym mhenodau'r themâu craidd unigol yn adran 2.5.

Bydd angen i chi gofnodi partneriaeth benodol yn erbyn y camau gweithredu yn y tabl o gamau gweithredu ar gyfer pob un o'r themâu craidd yn adran 2.10 o dan y teitl 'sut fyddwn ni'n gweithredu'.

Mae'n bosibl y bydd gennych chi ddogfennau manwl yn ymwneud â threfniadau partneriaeth a llywodraethu. Gallwch eu cynnwys mewn Atodiad os ydych chi'n dymuno.

### Adrannau perthnasol o'r canllawiau statudol

- ◆ Partneriaethau – paragraffau 2-3, 12-16
- ◆ Integreiddio – paragraff 26

## Monitro a gwerthuso

Mae'r canllawiau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i chi fonitro cynnydd yn erbyn y camau gweithredu. Bydd angen i chi ddisgrifio yn y cynllun sut byddwch chi'n monitro cynnydd. Os oes gennych chi wybodaeth am yr hyn y byddwch chi'n ei fonitro yn benodol, gallwch ei chynnwys ym mhenodau'r cynllun. Bydd angen i chi nodi sut a phryd y byddwch chi'n adrodd ar gynnydd yn erbyn y camau gweithredu. Hefyd, bydd angen i chi ddangos sut mae'r flaenoriaeth neu'r blaenoriaethau yn erbyn pob thema graidd yn cyfrannu at y canlyniadau a nodir yn y *Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer pobl y mae angen gofal a chymorth* arnynt.

Hefyd, mae'n ofynnol i chi werthuso llwyddiant y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn rhoi'r cynllun ar waith. Bydd angen i chi ystyried pa ddulliau gwerthuso sy'n cael eu defnyddio gennych chi ac a fyddwch chi'n comisiynu gwerthusiad ffurfiol fel Bwrdd. Mae rhagor o gyngor ar gael yn [Nodyn cyfarwyddyd 7](#).

### Ym mha ran o'r templed Cynllun Ardal ddylwn i gofnodi hyn?

Bydd angen i chi ddisgrifio pryd a sut byddwch chi'n adrodd ar gynnydd yn erbyn y cynllun yn adran 1.4.

Hefyd, gallwch ddisgrifio sut byddwch chi'n monitro cynnydd yn erbyn camau gweithredu penodol, os ydynt yn hysbys, yn adran 2.11 o benodau'r themâu craidd unigol.

### Adrannau perthnasol o'r canllawiau statudol

- ♦ Monitro - paragraffau 17, 43
- ♦ Gwerthuso – paragraffau 17, 43
- ♦ Adolygu – paragraffau 17, 43-45
- ♦ Y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol – paragraff 23

## Ymgysylltu

Mae'n ofynnol i chi ymgysylltu â dinasyddion, gan gynnwys gofalwyr a phobl sydd ag anghenion gofal a chymorth posibl, a sefydliadau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector, wrth baratoi'ch cynllun. Cydnabyddir y bydd llawer o'r gwaith ymgysylltu wedi'i gwblhau fel rhan o'r asesiad o'r boblogaeth. Fodd bynnag, disgwylir i chi gynnwys pobl yn y gwaith o ddatblygu a chwblhau'ch cynllun. Mae rhagor o gyngor ar gael yn [Nodyn cyfarwyddyd 8](#).

### Ym mha ran o'r templed Cynllun Ardal ddylwn i gofnodi hyn?

Bydd angen i chi ddisgrifio pwy oedd yn cymryd rhan yn y gwaith cyffredinol o ddatblygu'r cynllun o dan adran 1.3 o'r cyflwyniad.

Bydd angen i chi ddisgrifio gweithgarwch ymgysylltu penodol yn erbyn y blaenoriaethau yn adran 2.8 o benodau'r themâu craidd unigol.

### Adrannau perthnasol o'r canllawiau statudol

Paragraffau 19-22, 38